**Ymrin ag offerynnau statudol o dan Reol Sefydlog 21.2 a Rheol Sefydlog 21.3 nes y clywir yn wahanol**

**Cefndir**

Mae Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3 yn darparu mai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (DCC) yw'r pwyllgor cyfrifol y mae'n ofynnol iddo drafod a chyflwyno adroddiad ar bwyntiau technegol mewn offerynnau statudol (OSau) (e.e. gwaith drafftio diffygiol), a rhai pwyntiau rhinwedd hefyd, pan fo'n dewis gwneud hynny, (e.e. budd gwleidyddol a/neu fudd y cyhoedd).

Ar 27 Mawrth a 3 Ebrill 2020, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 34.22(i), i ddatgymhwyso Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3 yn eu cyfanrwydd a rhoi proses dros dro ar waith ar gyfer ymdrin ag OSau. Roedd y penderfyniadau hyn yn rhan o becyn ehangach o fesurau a gyflwynwyd i ymateb i Covid-19, argyfwng iechyd y cyhoedd sy'n datblygu'n gyflym.

Nid yw'r penderfyniadau hyn yn effeithio ar allu Aelodau'r Cynulliad i gyflwyno cynnig i ddirymu offeryn sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol (Rheol Sefydlog 27.2) na'r gofyniad i'r Cynulliad bleidleisio i gymeradwyo (neu beidio) offeryn sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (Rheol Sefydlog 27.5).

**Proses dros dro**

Yn dilyn datgymhwyso Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y broses dros dro a ganlyn ar gyfer ymdrin ag OSau nes y clywir yn wahanol:

(i) Bydd cyfreithwyr y Cynulliad yn paratoi Nodyn Cyngor ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn yr un modd ag ar gyfer y Pwyllgor DCC yn flaenorol;

(ii) bydd y Llywydd yn gosod y Nodyn Cyngor Cyfreithiol i Aelodau'r Cynulliad fel dogfen o dan Reol Sefydlog 15.2;

(iii) bydd y Nodyn Cyngor Cyfreithiol a osodir yn cael ei anfon drwy e-bost at yr holl Aelodau gyda manylion cryno am yr OS;

(iv) ar gyfer offerynnau gweithdrefn negyddol, caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i ddirymu. Os bydd cynnig o'r fath yn cael ei gyflwyno, a'i drefnu i'w drafod gan y Pwyllgor Busnes, bydd y Nodyn Cyngor Cyfreithiol i Aelodau'r Cynulliad yn cael ei gynnwys ar agenda'r Cyfarfod Llawn fel dogfen ategol ar gyfer y ddadl;

(v) ar gyfer offerynnau gweithdrefn gadarnhaol, bydd y Nodyn Cyngor Cyfreithiol i Aelodau'r Cynulliad yn cael ei gynnwys ar agenda'r Cyfarfod Llawn fel dogfen ategol ar gyfer y ddadl, a bydd pleidlais yn cael ei chynnal ar gynnig a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Reol Sefydlog 27.5.

Os oes gennych gwestiynau am y broses, anfonwch e-bost: SeneddDCC@cynulliad.cymru